**Sul y Blodau a Dechrau'r Wythnos Fawr**

**Darllen Marc 11:1–10**

Rhannwch groesau palmwydd bach er mwyn i'r gynulleidfa eu dal yn ystod y weddi.

Dduw'r gobaith llawen,
dathlwn dy addewidion brenhinol
wrth i ni gofio dy orymdaith fuddugoliaethus
i Jerwsalem.
*Tawelwch*

Dduw'r gwirionedd rhyfeddol,
gwelwn dy fawredd ar yr achlysur llawen hwn
cyn i erchylltra'r Wythnos Fawr dy oddiweddyd.

Y mae paradocs croes y ddeilen balmwydd
yn ein gorfodi i ofyn a ydym ninnau
fel y dyrfa yn Jerwsalem,
a'r dienyddwyr ar Golgotha,
yn sylweddoli'n iawn yr hyn sy'n digwydd?
*Tawelwch*

Dduw maddeuant, cyffeswn
fod ein haddoliad yn canolbwyntio
llawer mwy arnom ni ein hunain
nag ar dy gariad anfeidrol di tuag atom.
*Tawelwch*

Yn ystod yr Wythnos Fawr, cymorth ni i ganolbwyntio
ar Newyddion Da ein hiachawdwriaeth yng Nghrist;
gofynnwn i ti lenwi ein calonnau a'n meddyliau
â holl ystyr yr hyn sy'n digwydd.
Dymunwn gydgerdded gydag Iesu
ar hyd ffordd boenus gwir gariad.
Dymunwn gydnabod ein rhan yn y pechod
a'i hoeliodd ar y groes.
Dymunwn brofi llawenydd buddugoliaeth
dy atgyfodiad dros ddrygioni a marwolaeth.
*Tawelwch*

Wrth ddal ein croesau o balmwydd
offrymwn ein mawl:
rwyt wedi talu'r pris
a pharatoi'r ffordd i ni
drwy dy gariad tragwyddol.

***Nick Fawcett, addasiad Olaf Davies***